# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEHEFIN 2009** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2008/09** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGNIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2008/09 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWEYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ymysg y gofynion ar awdurdodau lleol Cymru yn sgil Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 y mae'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol (DRhF) blynyddol, yn unol â rheoliad 4(2)(a):

> **Rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol, a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi.**

1.2 Diffinir yr "Arferion Priodol" ar gyfer paratoi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol statudol fel Datganiad CIPFA o Ymarfer Argymelledig ("SORP"), sef y Côd Ymarfer ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, sydd yn datgan fod angen i'r Datganiad Rheolaeth Fewnol gynnwys:

(a) Cydnabyddiaeth fod yna gyfrifoldeb i sicrhau fod system gadarn o reolaeth fewnol yn ei le.

(b) Arwydd o'r lefel o sicrwydd y gall system o reolaeth fewnol ei ddarparu.

(c) Disgrifiad cryno o elfennau allweddol amgylchedd reolaeth fewnol gan gynnwys y rheolaethau sy'n cyfateb i weitgareddau grwp lle mae'r gweithgareddau hyn yn arwyddocaol.

(ch) Disgrifiad cryno o'r broses sydd wedi ei ddefnyddio er mwyn cynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol, gan gynnwys peth sylw ar rôl: yr awdurdod; y swyddogaeth weithredol; y pwyllgor archwilio a pwyllgorau craffu/rheoli risg; archwilio mewnol ac unrhyw fecanwaith adolygu/sicrwydd penodol arall.

(d) Amlinelliad o'r camau a gymerwyd, neu sy'n arfaethedig, er mwyn delio â materion rheolaeth fewnol arwyddocaol.

## 2. STATWS Y DATGANIAD

2.1 Nid oes gofyn statudol ar awdurdodau lleol Cymru i gyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol y tu hwnt i'r gofyn am Ddatganiad Rheolaeth Fewnol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yng nghanol proses ymgynghori ar hyn o bryd ar newidiadau i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio. Ymysg y cwestiynnau a ofynnir yn yr ymgynghoriad yw a ddylid gwneud y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn fandadol. Byddai hynny yn gwneud y gofyn ar awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyson â'r ymofyniad gyfredol ar gynghorau yn Lloegr. Er mai yn wirfoddol, felly, y cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan Cyngor Gwynedd ar gyfer 2008/09, disgwylir y bydd cyfryw ddatganiad yn fandadol erbyn y flwyddyn nesaf.

2.2 Wrth baratoi datganiad gwirfoddol, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgorffori'r gofynion statudol fel a amlinellir yn y Rheoliadau. Er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd, dilynwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol megis CIPFA er mwyn sicrhau fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys yr holl elfennau a fyddai wedi eu cynnwys yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y gorffennol.

2.3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn ymgorffori'r Datganiad Rheolaeth Fewnol statudol ac sydd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'i arwyddo gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, wedi ei gynnwys yn nhudalennau 7 i 17 y Datganiad o Gyfrifon sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel eitem ar wahân.

## 3. TYSTIOLAETH

3.1 Wrth ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'n hanfodol fod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn fod y ddogfen yn cael ei gyhoeddi. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r tystiolaeth sydd yn ei le yn eu hadolygiad o waith y Cyngor.

3.2 Mae'r tystiolaeth a gasglwyd er mwyn paratoi'r Datganiad yn cynnwys:

- Cyfansoddiad y Cyngor:
  - Protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.
  - Cynlluniau Dirprwyo
  - Rheolau Gweithdrefn
  - Codau ymddygiad i aelodau a swyddogion
- Cynllun Tair Mlynedd Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol "Pennaeth Archwilio Mewnol"
- Adroddiadau archwilio a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio
- Strategaeth Gyllid
- Canllawiau Rheoli Perfformiad
- Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg
- Swydd-ddisgrifiadau'r swyddogion statudol

3.3 Defnyddwyd datganiadau, sylwadau a gosodiadau o'r ffynonellau hyn a gan swyddogion allweddol er mwyn ysgrifennu'r DLIB.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.